



National Joint Registry

[www.njrcentre.org.uk](http://www.njrcentre.org.uk)

Working for patients, driving forward quality



CLUNIAU



PENGLINIAU



FFERAU



PENELINOEDD



YSGWYDDAU



Cofrestrfa Genedlaethol y  
Cymalau

17eg Adroddiad Blynyddol

2020

## **Paratowyd gan**

### **Bwrdd Golygyddol yr NJR**

#### **Aelodau Pwyllgor Llywio'r NJR**

Mike Reed (Cadeirydd, Bwrdd Golygyddol)  
Peter Howard  
Robin Brittain  
Sandra Lawrence  
Jeffrey Stonadge  
Mark Wilkinson  
Timothy Wilton

#### **Cynrychiolwyr RCC yr NJR**

Matthew Porteous (Cadeirydd, Pwyllgor yr RCC)  
Sebastian Dawson-Bowling  
Adam Watts

#### **Arbenigwyr Orthopedig**

Richard Craig  
Colin Esler  
Andy Goldberg  
Simon Jameson  
Toby Jennison  
Jonathan Rees  
Andrew Toms

#### **Tim Rheoli'r NJR**

Elaine Young  
Chris Boulton  
Deirdra Taylor  
Oscar Espinoza

#### **Gwasanaethau Cyhoeddus Northgate**

##### **Canolfan yr NJR, TG a rheoli data**

Victoria McCormack  
Claire Newell  
Martin Royall  
Mike Swanson

#### **Prifysgol Bryste / Prifysgol Rhydychen**

##### **Cefnogaeth Ystadegol, dadansoddi a thîm ymchwil yr NJR**

Yoav Ben-Shlomo  
Ashley Blom  
Emma Clark  
Kevin Deere  
Celia Gregson  
Linda Hunt  
Andrew Judge  
Erik Lenguerrand  
Andrew Price  
Dani Prieto-Alhambra  
Adrian Sayers  
Michael Whitehouse

#### **Pad Creative Ltd (dylunio a chynhyrchu)**

Mae data a gwybodaeth ychwanegol i'w gweld fel y'u hamlinellir ar dudalennau 5-7.

# Cyflwyniad

Bydd Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau (yr NJR) yn casglu gwybodaeth am lawdriniaethau newid cymal y glun, pen-glin, ffêr, penelin a'r ysgwydd, (cymalfurfiad) o'r holl ysbytai sy'n cymryd rhan yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw a Chynulliad Guernsey. Fel y mwyaf o'i math yn y byd, mae'r gofrestrfa wedi'i disgrifio'n ddiweddar yn Senedd y Deyrnas Unedig fel enghraifft fyd-eang gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Pwrpas y gofrestrfa hon yw cofnodi gwybodaeth am gleifion a darparu data ar berfformiad ac oes impiadau amnewidiadau cymal, canlyniadau'r llawfeddygaeth ar gyfer yr ysbytai lle cynhelir y llawdriniaethau hyn a pherfformiad y llawfeddygon sy'n cynnal y gweithredoedd.

Bydd yr NJR yn cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol hwn gan grynhoi ei gwaith a rhannu dadansoddiadau data'r flwyddyn a aeth heibio yn weledol mewn tabl a graffiau, ar gyfer gweithredoedd ar draws pob un o'r cymalau yn ogystal ag ar gyfer canlyniadau impiadau ac ysbytai. Mae data'r NJR wedi'u dadansoddi gan ystadegwyr arbenigol a'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi'n flynyddol, gyda'r nod o wella diogelwch, wrth wella'n barhaus ganlyniadau clinigol er budd cleifion a'r sector gofal iechyd cyfan. Rhennir canlyniadau, hefyd, gyda gweithgynhyrchwyr impiadau. Mae'r adroddiad, hefyd, yn cynnwys ychydig o ddyfyniadau byr sy'n arddangos cyfraniad yr NJR i weithgarwch ymchwil orthopedig, gan amlygu gwerth defnyddio'r data hyn a gesglir.

## Gwaith yr NJR a chyfraniad cleifion

Mae'r gofrestrfa wedi dangos fod llawfeddygaeth orthopedig, fel un o brif ddefnyddiau impiadau yn y Deyrnas Unedig, yn arddangos safonau uchaf diogelwch cleifion o ran defnyddio impiadau. Bellach gyda chryn dipyn dros dair miliwn o gofnodion, sicrhair bod data'r NJR ar gael i ymchwilwyr meddygol ac academiaidd dan amodau diogelwch llym i ddatblygu ymhellach gronfa'r gwaith wrth fesur a deall pa arferion sy'n rhoi'r canlyniadau gorau.

Rhydd gwaith casglu a dadansoddi data'r NJR dystiolaeth i yrru datblygiad a gweithrediad parhaus mesurau i sicrhau fod diogelwch impiadau bob amser yn flaenoriaeth, gwella canlyniadau cleifion a gostwng cyfraddau diwygio o flwyddyn i flwyddyn, gwella safonau mewn ansawdd gofal a rhoi sylw i gost-effeithiolrdd cyffredinol llawfeddygaeth newid cymal.

Mae'r NJR yn ddiolchgar iawn i'r holl gleifion sydd wedi cyflwyno eu data dros y blynyddoedd, wedi iddynt gael newid cymal; mae hyn wedi galluogi ffynhonnell ddata mor gyfoethog a gwerthfawr. Mae'r gofrestrfa, hefyd, yn gwerthfawrogi gwaith y staff sy'n cofnodi data yn yr ysbytai sy'n cymryd rhan ac sy'n barod i ymgysylltu â'n rhaglenni dyfarnu ansawdd data caeth er mwyn sicrhau bod ein gwybodaeth mor gywir a thrwyadl â phosibl.



Defnyddia'r gwaith hwn ddata a roddwyd gan gleifion a'u casglu gan ysbytai fel rhan o'u gofal a'u cymorth.

# Crynodeb o'r cynnwys ar gyfer Adroddiad Blynyddol yr NJR

Crynodeb	Cynnwys	Gwybodaeth lawn i'w chael yn
Cyflwyniad	Cyflwyniad i'r NJR a Rhagair gan Gadeirydd Pwyllgor Llywio'r NJR	Yr adroddiad hwn a thrwy <a href="https://reports.njrcentre.org.uk">reports.njrcentre.org.uk</a>
Crynodeb gweithredol	Crynodeb o adroddiad eleni gan Gadeirydd Bwrdd Golygyddol yr NJR a Chyfarwyddwr Meddygol yr NJR	Yr adroddiad hwn a thrwy <a href="https://reports.njrcentre.org.uk">reports.njrcentre.org.uk</a>
Gweithgarwch clinigol 2019	Ystadegau ar weithgarwch newid cymal ar gyfer gweithgarwch clun, pen-glin, ffêr, penelin ac ysgwydd am y cyfnod 1 Ionawr i 31 Rhagfyr 2019	<a href="https://reports.njrcentre.org.uk">reports.njrcentre.org.uk</a> trwy adrodd rhyngweithiol
Canlyniadau ar ôl llawfeddygaeth newid cymal 2003-2019	Dadansoddiadau ystadegol manwl ar lawfeddygaeth newid clun a phen-glin gan ddefnyddio data o 1 Ebrill 2003 hyd at 31 Rhagfyr 2019. Cynhwysir hefyd ddadansoddiadau diweddar ar ddata ar gyfer fferau ac ysgwyddau cychwynnol sy'n ddata a gasglwyd er 1 Ebrill 2010 ac 1 Ebrill 2012 yn y ddau achos. Dadansoddiadau ar ddata dros dro ar gyfer penelinoedd gan ddefnyddio data a gasglwyd er 1 Ebrill 2012	Yr adroddiad hwn
Gweithgarwch a chanlyniadau impiad a lefel uned	Dangosyddion ar gyfer gweithredoedd newid cymal ar gyfer clun a phen-glin fesul Ymddiriedolaeth, Bwrdd Iechyd Lleol ac uned. Yn ogystal, sylwadau ar berfformiad impiadau a'r rhai hynny sydd â chyfraddau uwch na'r disgwyl o ddiwygio ac yr adroddwyd arnynt i'r MHRA	Yr adroddiad hwn a thrwy <a href="https://reports.njrcentre.org.uk">reports.njrcentre.org.uk</a> a'r man lawrlwytho
Datblygiadau	Gwybodaeth am waith pwyllgorau'r NJR a datblygiadau'r NJR hyd at 31 Mawrth 2020	<a href="https://reports.njrcentre.org.uk">reports.njrcentre.org.uk</a>
Strwythur llywodraethu a gweithredol yr NJR	Cyfansoddiad, presenoldeb, datganiadau o ddi-ddordeb ar gyfer Pwyllgor Llywio, Is-bwyllgorau a chylch gorchwyl yr NJR	<a href="https://reports.njrcentre.org.uk">reports.njrcentre.org.uk</a> a'r man lawrlwytho
Gwaith ymchwil	Papurau ymchwil a gyhoeddwyd ac a gymeradwywyd gan ddefnyddio data'r NJR	<a href="https://reports.njrcentre.org.uk">reports.njrcentre.org.uk</a> a'r man lawrlwytho

# NJR Reports ar lein

## Darlun cyffredinol o weithgarwch clinigol 2019

**Mae modd gweld rhan ryngweithiol o 17eg Adroddiad Blynyddol yr NJR ar lein trwy wefan bwrpasol NJR Reports y gofrestrfa yn: [reports.njrcentre.org.uk](https://reports.njrcentre.org.uk)**

Yma cyflwynwn ddata ar weithgarwch clinigol yn ystod blwyddyn galendr 2019. Mae'n cynnwys gwybodaeth am niferoedd a thechnegau llawfeddygol mewn perthynas â gweithredoedd a gyflwynwyd i'r NJR, gyda'r data mwyaf diweddar yn ddata ar gyfer y flwyddyn 1 Ionawr 2019 hyd 31 Rhagfyr 2019. Er mwyn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, rhaid i'r holl weithredoedd fod wedi'u cofnodi yn yr NJR erbyn 28 Chwefror 2020.

Yn y dudalen ddwbl ar ddiwedd yr adroddiad ceir crynodeb gweledol o ffeithiau allweddol yn ymwneud â gweithgarwch clinigol yn ystod blwyddyn galendr 2019. Mae modd lawrlwytho hon hefyd fel poster ar gyfer yr ystafell aros trwy [reports.njrcentre.org.uk/downloads](https://reports.njrcentre.org.uk/downloads)

Mae'r wybodaeth sydd i'w gweld ar lein bellach yn cynnwys data hanesyddol, gan fynd yn ôl i 2005 yn y rhan fwyaf o achosion. Gan ddefnyddio'r wefan bwrpasol, mae modd i ddarllenwyr ddefnyddio graffiau rhyngweithiol, hidladwy i adnabod y wybodaeth a'r tueddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r adroddiadau a ganlyn ar gyfer data clun, pen-glin, ffêr, penelin ac ysgwydd (lle mae data digonol ar gael):

- Cyfanswm nifer yr ysbytai a chanolfannau triniaeth yng Nghymru, Lloegr (gan gynnwys Ynys Manaw a Chynulliad Guernsey) a Gogledd Iwerddon sy'n gallu cymryd rhan yn yr NJR a'r gyfran sy'n wirioneddol gymryd rhan
- Nifer yr ysbytai sy'n cymryd rhan a nifer math y gweithredoedd a berfformir
- Nifer y gweithredoedd a gynhaliwyd fel cyfran o'r holl weithredoedd a gyflwynir yn flynyddol

- Manylion y weithred, yn ôl math darparwr
- Manylion y weithred gychwynnol, yn ôl math darparwr
- Mathau'r amnewidiadau cychwynnol a gynhaliwyd
- Nodweddion cleifion ar gyfer gweithredoedd amnewidiad cychwynnol, yn ôl math gweithred
- Oedran a rhyw ar gyfer cleifion amnewidiad cychwynnol
- Dosbarthiad statws corfforol claf (graddau ASA) ar gyfer gweithredoedd amnewidiad cychwynnol
- Indecs Más Corff (BMI) cleifion amnewidiad cychwynnol
- Dangosyddion ar gyfer gweithred gychwynnol yn seiliedig ar grŵp oed
- Oed cleifion sy'n cael amnewidiad cymal cychwynnol
- Techneg llawfeddygol ar gyfer cleifion amnewidiad cychwynnol
- Trefn thromboproffylacsis ar gyfer cleifion amnewidiad cychwynnol a ragnodwyd adeg y llawdriniaeth
- Digwyddiadau mewnllawdriniaethol anffodus a adroddir ar gyfer cleifion amnewidiad cychwynnol, yn ôl math gweithred
- Nodweddion cleifion ar gyfer gweithredoedd diwygio, yn ôl math gweithred
- Tueddiadau yn y defnydd a wneir o frandiau a ddefnyddir mwyaf cyffredin

### Ar gyfer cluniau'n benodol

- Cydrannau a dynnwyd yn ystod gweithredoedd diwygio clun
- Cydrannau a ddefnyddiwyd yn ystod gweithredoedd clun un cam
- Tueddiadau mewn maint pen ffemwrol a chysylltiad clun

## Ar gyfer penliniau'n benodol

- Cyfyngiad impiad ar gyfer gweithredoedd cychwynnol
- Math beryn ar gyfer gweithredoedd cychwynnol

# Canfod eich ffordd o gwmpas cyfleuster ar lein yr NJR Reports

Beth allwch chi gael hyd iddo ar lein yn NJR Reports?

Yr oll sy'n rhaid ei wneud yw mynd drwy'r tabiau ar y chwith i weld gwybodaeth am y niferoedd a'r technegau llawfeddygol mewn perthynas â gweithredoedd a gyflwynir i'r NJR.

### Tabiau ar y chwith:

Yma caiff y wybodaeth ei didoli'n ôl math adroddiad a gwybodaeth. Mae toreth o ddiweddariadau ar gael, o ragor o wybodaeth am gasglu data a'u hansawdd i waith ein pwyllgorau a chynnydd gyda datblygiadau'r NJR

### Tabiau ar ben y dudalen:

Os oes angen gwybodaeth amoch am weithredoedd penodol, ewch yn syth i'r data trwy glicio ar fath y cymal sydd fwyaf perthnasol i chi.

Ewch i wefan NJR Reports:  
[reports.njrcentre.org.uk](http://reports.njrcentre.org.uk)

Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn benodol am impiadau ac ysbytai, hefyd eirfa a ffeithlun y mae modd ei lawrlwytho fel bod ein holl gleifion yn medru cael at yr holl wybodaeth yn rhwydd

# Rhagair y Cadeirydd

**Laurel Powers-Freeling**

**Cadeirydd Pwyllgor Llywio Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau**

Goruchwylia Pwyllgor Llywio Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau raglen waith strategol a gweithredol y gofrestrfa ac rwyf wrth fy modd cael wedi bod yn Gadeirydd y pwyllgor dros yr wyth mlynedd diwethaf. Ym mhob un o'r blynyddoedd hynny, bu gennyf newyddion cyffrous i'w rhannu ynghylch esblygiad yr NJR. Er bod eleni wedi bod yn heriol iawn yn sgil y pandemig, cyflwynodd yr NJR, er gwaethaf hynny, nifer o ddatblygiadau pwysig. Rhydd yr Adroddiad Blynyddol hwn y cyfle i edrych yn ôl ar ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen i'r flwyddyn i ddod. Crynhoir yr uchafbwyntiau yma yn yr 17eg argraffiad o'n Hadroddiad Blynyddol. .



## Ein gwaith a'n datblygiadau

**Rheoli effaith argyfwng COVID-19:** Eleni cynhaliodd yr NJR adolygiad o'n cyllideb a'n cynllun gwaith blynyddol arfaethedig am 2020/21 i adlewyrchu effaith argyfwng COVID-19 a'r gydnabyddiaeth bod angen cyfeirio cyllid a staff gweinyddol y GIG i fan arall. Gydag awdurdod dirprwyedig gan Bwyllgor Llywio'r NJR, rhoes y Pwyllgor Gwaith ystyriaeth i sut y gellid gwarchod adnoddau hyd oni allem aildechrau casglu, prosesu a dadansoddi data ar gyfer ein gwaith ac adfer gwaith casglu incwm trwy daliadau tanysgrifio'r Ymddiriedolaeth. O ganlyniad i hyn, mae ein cynlluniau datblygu a'n rhaglen wariant am 2020/21 wedi'u gostwng yn sylweddol. Byddir yn adolygu hyn ar gyfer blwyddyn ariannol 21/22.

### **Cefnogi'r Meddyginiaethau Annibynnol ac Adolygiad Diogelwch Dyfeisiau Meddygol**

**[IMMDSR]:** Estynnwyd gwahoddiad i'r NJR roi tystiolaeth i'r IMMDSR, dan gadeiryddiaeth y Farwnes Cumberlege, ar sut gall cofrestrfa effaith uchel dan arweiniad clinigol wella diogelwch dyfeisiau trwy eu monitro'n barhaus. Argymhellodd adroddiad ar yr adolygiad oedd newydd ei gyhoeddi sefydlu cofrestrfa dyfeisiau meddygol impiadwy gan nodi'r NJR fel enghraifft fyd-eang o gofrestrfa o'i math. Wedi i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i NHSX gyflwyno opsiynau priodol am gofrestrfa ehangach o ddyfeisiau, gofynnodd

NHSX yntau i gael gweithio gyda'r NJR i gynnal dadansoddiad manwl o'n model gweithredol ar gyfer ei fabwysiadu neu ei ailddedfyddio.

Rydym yn falch o rannu arfer gorau'r NJR gydag NHSX ar y strategaeth data cenedlaethol hon a bydd y gwaith hwn yn faes pwysig i'r NJR/BOA/TORUS ganolbwyntio arno yn y flwyddyn i ddod. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i barhau i sicrhau cefnogaeth i fwriad yr NJR/BOA/TORUS am Gofrestrfa Cyhyrgerbydol Genedlaethol sy'n cyd-fynd â'r strategaeth data cenedlaethol hon o sefydlu setiau data integredig.

### **Awtomeiddio ein Gwaith Archwilio Ansawdd Data:**

Mae ansawdd data wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i'r NJR. Fodd bynnag, mae ein proses archwilio'n llafurddwys, felly, nawr mae'r NJR wedi dechrau cyflwyno proses led-awtomataidd yn genedlaethol sy'n galluogi unedau wirio ansawdd eu data'n rheolaidd wrth leihau'r baich ar adnoddau a sicrhau y daw'r gwaith archwilio'n rhan o'r llif gwaith arferol. Mae'r gwaith cyflwyno'n mynd rhagddo ar gyfer data clun a phen-glin ac, yna'n dilyn, bydd ysgwyddau, penelinoedd a fferau, gyda'r holl waith cyflwyno ar draws yr holl gymalau wedi'i wneud erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21.

**Moderneiddio ein Platfform TG:** Rydym wedi comisiynu gwaith datblygu fframwaith rhaglenni cwmwl-barod, ar blatfform, er mwyn darparu gwasanaethau'r

NJR yn y dyfodol fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu amgylchedd modern, unedig ac yn gallu symud i seilwaith yn y cwmwl. Bydd hyn yn dod â'n pyrth adrodd, sydd ar wahân ar hyn o bryd, ynghyd i fod yn un platform wedi'i seiffro'n ddiogel yn y cwmwl. Fel hyn, rhoddir mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol i newid y data, holi defnyddwyr a'r cyhoedd yn well ynghylch y data a bod â'r capasiti i'w ymestyn i gyd-fynd ag unrhyw gofrestrfeydd ychwanegol.

**Egluro buddion yr NJR:** Dechreuodd gwaith i gyfleu'n well fuddion yr NJR a wireddwyd dros y ddwy flynedd ar bymtheg diwethaf. Rhoddodd gwedd 1 grynodedd i weithredwyr ysbytai o'r buddion i'w gwasanaethau fydd ar gael trwy danysgrifio i <https://njr-subscriber-benefits.webflow.io/>. Cynhelir gwedd 2 yn 2020/21 a bydd yn cymryd golwg ehangach, gan gynnwys metrigau effeithiau meintiol, o'r gwelliannau a'r buddion i ysbytai, llawfeddygon, cleifion, rheoleiddwyr a gwneuthurwyr polisi sy'n gysylltiedig â'r NJR.

**Adnabod ac Atal 'Digwyddiadau na ddylai Fyth Ddigwydd':** Yn sgil gofyniad Cangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd yr NHS i leihau nifer y 'Digwyddiadau na ddylai Fyth Ddigwydd' sy'n gysylltiedig â llawfeddygaeth newid cymal, mae'r NJR wedi bod yn gweithio i gyflawni rheolau dilysu a ddefnyddir wrth gofnodi data i amgylchedd allanol, i'w defnyddio i gefnogi gwiriadau a gynhelir yn ystod llawdriniaeth feddygol. Rydym wedi datblygu Rhyngwyneb Rhaglennu (API) fel bod modd i systemau theatrau ysbytai ryngwynebu gyda rheolau gwirio'r NJR. Mae rhaglen ffôn clyfar yn cael ei datblygu, hefyd, fel bod modd i dimau clinigol wirio dilysrwydd hyd yn oed os nad oes gan eu hysbyty system pen blaen.

**Dadorchuddio Offeryn Cefnogi Penderfyniadau Cleifion:** Rydym wedi lansio Offeryn Cefnogi Penderfyniadau Cleifion, offeryn personoledig a ddefnyddir ar y we sy'n cynorthwyo cleifion, sy'n ystyried cael clun neu ben-glin newydd, i wneud penderfyniadau. Bydd yr offeryn hwn a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Sheffield a Bryste ac a gefnogwyd gan yr elusen Versus Arthritis, yn cynorthwyo cleifion sy'n ystyried cael newid cymal, i wneud dewisiadau'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch eu triniaeth a rhannu eu penderfyniadau gyda'u clinigwyr pan fyddant yn ystyried buddion a pheryglon cael newid cymal. Bydd gwaith ar wella'r offeryn yn parhau.

## Y bobl sy'n gwneud yr NJR yn llwyddiant

Gwelwyd nifer o newidiadau i aelodaeth Pwyllgor Llywio'r NJR eleni. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Matthew Porteous y mae ei gyfnod fel aelod cyfetholedig yn dod i ben, ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'r NJR dros sawl blwyddyn fel Cadeirydd Is-bwyllgorau Cydgysylltwyr Clinigol Rhanbarthol ac Ansawdd Data'r NJR ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Perfformiad Llawfeddygon. At hyn, hoffwn ddiolch i Rob Hurd, aelod o Dîm Rheoli Ymddiriedolaeth y GIG am ei gyngor gwerthfawr a'i gyfraniad sylweddol i'r NJR.


Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi, Khalid Razak, y mae ei gyfnod o gynrychioli'r MHRA yn dod i ben, am ei gyfraniad sylweddol i Bwyllgor Llywio'r NJR a'i gefnogaeth werthfawr i'r Is-bwyllgor Craffu Impiadau. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'i olynydd, Sharon Knight, a pharhau gyda'n perthynas weithio agos â'r MHRA. Yr aelod olaf sy'n ildio'r awenau yw Don McBride, y diolchais iddo am ei gyfraniad eleni fel Llywydd BOA, sydd wedi bod yn bwysig wrth i ni barhau â'n perthynas werthfawr gyda'r proffesiwn orthopedig. Edrychaf ymlaen at groesawu ei olynydd, Bob Handley, fydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Medi.

Fel bob amser, diolch o waelod calon i Gydgysylltwyr Clinigol Rhanbarthol yr NJR sy'n cynnal ac yn hyrwyddo gwaith a llwyddiant yr NJR yn lleol. Diolch, hefyd, i'n partneriaid contract Northgate Public Services (UK) Ltd a Phrifysgol Bryste am eu gwaith rhagorol trwy gydol y flwyddyn yn cefnogi'r NJR i gyflawni ei rhaglen waith a'i hamcanion – yn enwedig felly dros yr ychydig fisoedd diwethaf gyda heriau'r gwahanol ddulliau o weithio yn sgil argyfwng pandemig COVID-19.

Hoffwn orffen trwy ddiolch i holl aelodau Pwyllgor Llywio'r NJR a'i is-bwyllgorau am eu cyfraniad gwerthfawr. Hoffwn ddiolch yn enwedig felly, i Tim Wilton, Is-gadeirydd a Chyfarwyddwr Meddygol yr NJR am ei arbenigedd a'i arweinyddiaeth glinigol ac i gadeiryddion pob un o'r is-bwyllgorau - Peter Howard, Mark Wilkinson a Mike Reed – am eu gwaith caled a'u craffter. Heb eu hymrwymiad, ni fyddai'r NJR y gofrestrfa cymalffurfiad sy'n arwain y byd ac yn enghraifft fyd-eang o gofrestrfa dyfeisiau impiadwy ag ydyw. Byddwn yn eich annog i ddarllen adroddiadau pob Cadeirydd yn [reports.njrcentre.org.uk](https://reports.njrcentre.org.uk) lle rhoddant gipolwg strategol ar feysydd gwaith allweddol.

Yn olaf, diolch i Dîm Rheoli'r NJR, yn arbennig felly, i

Elaine Young, ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau, sy'n rhoi cymorth cyson a chadarnhaol i'r NJR ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn yr ydym yn ei addo...a mwy.



**Laurel Powers-Freeling**

Cadeirydd, Pwyllgor Llywio Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau

# Crynodeb Gweithredol



**Yr Athro Mike Reed,  
Cadeirydd y Bwrdd  
Golygyddol**



**Mr Tim Wilton  
Cyfarwyddwr  
Meddygol yr NJR**

Datblyga Bwrdd Golygyddol yr NJR strategaeth ac arddull yr adroddiad ac mae'r holl aelodau'n cymryd cyfrifoldeb dros gynhyrchu adroddiad a gaiff ei olygu'n fanwl, gan gymryd bron i flwyddyn gyfan i'w ysgrifennu a'i adolygu. Daw'r Bwrdd ag arbenigwyr ar gasglu data ac adrodd yn ogystal â mewnbwn hael gan gleifion, clinigwyr ac aelodau o dîm rheoli'r NJR ynghyd.

Nod y Bwrdd Golygyddol bob blwyddyn yw gwneud cynnydd wrth adrodd ar ein hadnodd data cyfoethog, a'i gwneud yn hawdd cael at ddata er mwyn gwella canlyniadau cleifion.

Yr ychwanegiadau penodol i adroddiad eleni oedd

- Amnewidiad clun symudedd deuol
- Newid y pen-glin ac ailwynebu padell y pen-glin yn ôl brand
- Goroesiad pen-glin uncydrannol
- Gwahanu prothesisau â sment a di-sment ar lefel brand
- Amnewidiad pen-glin amlgydrannol
- Dadansoddiad o'r pen-glin yn seiliedig ar osodiad

At hyn, bu gwaith sylweddol i wella a mireinio nodweddiad a dosbarthiad impiadau fel bod modd nawr ddefnyddio diffiniad cliriach o is-grwpiau trwy'r adrannau penelinoedd ac ysgwyddau.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata hyd at ddiwedd 2019 ac, felly, nid yw pandemig COVID-19 yn cael effaith ar ganlyniadau. Mae'r NJR a'i bwyllgorau wedi parhau i fod yn weladwy mewn cyfarfodydd cenedlaethol a rhyngwladol gan fynychu cynadleddau cymdeithasau arbenigol, gyda nifer ohonynt wedi'u cynnal yn rhithiol eleni. Mae'r NJR bob amser wedi bod yn falch i gefnogi Cymdeithas Orthopedig Prydain (BOA), Cymdeithas Penelinoedd ac Ysgwyddau Prydain (BESS), Cymdeithas Cluniaid Prydain (BHS), Cymdeithas Llawfeddygaeth ar y Pen-glin Prydain (BASK), Cymdeithas Traed a Fferau Orthopedig Prydain (BOFAS), Cymdeithas Cluniaid Ewrop (EHS), Cymdeithas Ymchwil Orthopedig Ewrop (EORS) a Ffederasiwn Ewrop o Gymdeithasau Cenedlaethol Orthopedeg a Thrawmatoleg (EFORT).

Caiff yr 17eg Adroddiad Blyneddol ei lansio'n ffurfiol eleni yng Nghyngres ar lein BOA ym Medi 2020. Ni fydd copi print eleni.

Mae gwybodaeth ychwanegol, sylweddol ar gael ar lein a byddem yn eich annog i edrych drwy wefan adroddiadau blynyddol pwrpasol yr NJR yn [reports.njrcentre.org.uk](http://reports.njrcentre.org.uk). Cynigia'r wefan blatfform rhyngweithiol, defnyddiol ar gyfer data disgrifiadol yr NJR, gydag atodiadau ategol a, phan gaiff ei gyhoeddi, arweiniad diweddaraf i gleifion yr NJR.

## Sylwadau ar ganfyddiadau

Mae Adroddiad Blynyddol yr NJR eleni wedi'i seilio ar 3,016,279 o gofnodion a cheidw'r NJR ei safle fel cofrestrfa orthopedig fwyaf y byd. Cyflwyno'r adroddiad amnewidiadau cymal hyd at 16eg mlynedd o waith dilyn i fyny, gyda data ar amnewidiadau cluniau, pengliniau, ysgwyddau penelinoedd a fferau. Ychwanegwyd chwarter miliwn arall o gofnodion eleni.

Mae niferoedd a ganlyn yr amnewidiadau cymal cychwynnol cysylltiadwy ar gael i'w dadansoddi: 1,191,253 o amnewidiadau clun, 1,300,897 o rai pengliniau, 6,589 o rai fferau, 45,784 o rai ysgwyddau a 4,373 o rai penelinoedd. Mae rhagor o ddiwygiadau cysylltiadwy ar gyfer pob cymal

### Newid clun

Mae nifer o gyfuniadau brand yn adrodd tebygolrwydd cronol o ddiwygio hyd at 15 mlynedd ac yn Nhabl 3.H6 mae llwyddiant cyffredinol goroesi ar ôl cael newid clun ar 15 mlynedd fel a ganlyn:

- 12.95% diwygio mewn merched oed dan 55 (dynion: 10.68%)
- 9.41% diwygio mewn merched dan 55 i 64 (dynion: 9.36%)
- 5.74% diwygio mewn merched oed 65 i 74 (dynion: 7.29%)
- 3.63% diwygio mewn merched oed 75 a throsodd (dynion: 5.07%)

Mae cluniau hybrid yn parhau i ennill tir ar amnewidiadau clun â sment a di-sment ac mae'r

rhain, bellach, mor gyffredin â'r amnewidiad clun di-sment. O ran dewis beryn impiad mewn amnewidiad clun â sment, defnyddir mwy o fetel-ar-bolyethylen na dim arall ond mewn amnewidiadau clun di-sment a hybrid, daw seramig-ar-bolyethylen i gael ei ddefnyddio fwy na dim arall.

Ar draws yr holl amnewidiadau clun, mae'r defnydd a wneir o'r pen 28mm yn gostwng, gyda phennau 32mm yn dod yn fwy cyffredin. Gydag amnewidiadau clun â sment, dewisir pennau 28mm a 32mm ar gyfraddau tebyg, ar ôl blynyddoedd o ddefnyddio 28mm yn bennaf.

Yn Nhabl 3.H5, cyflwynir diwygiad berynnau symudedd deuol, yn bennaf metel-ar-bolyethylen-ar-fetel. Gyda'r dilyn i fyny sydd ar gael, mae cyfraddau diwygio'n gyffredinol uwch na berynnau symudedd nad ydynt yn ddeuol.

Nifer ganolrifol yr amnewidiadau clun cyfan cychwynnol fesul llawfeddyg yw oddeutu 21 y flwyddyn.

### Newid pen-glin

Mae nifer o gyfuniadau brand yn adrodd ar hyd at 15 mlynedd ac yn Nhabl 3.K6 mae llwyddiant cyffredinol goroesi ar ôl cael newid pen-glin ar 15 mlynedd fel a ganlyn:

- 15.74% diwygio mewn merched oed dan 55 (dynion: 16.21%)
- 8.44% diwygio mewn merched oed 55 i 64 (dynion: 9.01%)
- 4.66% diwygio mewn merched oed 65 i 74 (dynion: 5.27%)
- 2.67% diwygio mewn merched oed 75 a throsodd (dynion: 2.84%)

At ei gilydd, ymddengys bod amnewidiadau pen-glin digyfyngiad yn perfformio'n well nag amnewidiadau pen-glin sefydlog o'r tu ôl ar 15 mlynedd. Mae'r graddau y gwelir y gyfradd uwch hon mewn pengliniau

sefydlog o'r tu ôl yn amrywio rhwng brandiau, felly byddai'n ddoeth pe byddai llawfeddygon yn gwirio'r union ganlyniadau ar gyfer yr impiad o'u dewis yn erbyn y manylion yn Nhabl 3.K9 (b). Mae tibias monobloc yn performio'n arbennig o dda ar 15 mlynedd ond seilir hyn ar niferoedd isel.

Mae Tabl 3.K7 (b) yn adrodd diwygio cronol yn ôl brand gyda phadell y pen-glin wedi'i hailwynebu a chyda phadell y pen-glin heb ei hailwynebu ac mae gwahaniaethau rhwng y brandiau hyn. Er bod, yn gyffredinol, gyfradd ddiwygio uwch i'r pengliniau hynny lle na chafodd padell y pen-glin ei hailwynebu'n gychwynnol, mae amrywiad eang yn hyn o beth rhwng brandiau a mathau o amnewidiadau pen-glin cyfan ac mae hyn yn wybodaeth bwysig i'r llawfeddyg sy'n ymarfer. Mewn gwirionedd, ceir un neu ddau o osodiadau lle mae'r rheol gyffredinol hwn wedi'i wyrdroi felly, ni ddylai llawfeddygon dybio nad yw ailwynebu cychwynnol yn gwneud dim gwahaniaeth i'r gyfradd ddiwygio na thybio ei fod, o reidrwydd, yn lleihau'r gyfradd ddiwygio. Caiff llawfeddygon eu hannog i wirio'r canlyniadau ar gyfer yr impiadau a ffefrir ganddynt.

Rhydd sgorau ODEP ar gyfer pengliniau ystyriaeth i'r gwahanol gyfraddau diwygio yn ôl yr israniad o fewn brandiau, felly, mae'n bwysig fod llawfeddygon yn gwirio'r union is-fath a ddefnyddiant neu gallai rhai llawfeddygon gael sioc pan welant sgôr ODEP a gyhoeddwyd o'u defnydd eu hunain.

Cyflwynir canlyniadau ar gyfer amnewidiadau amlgydrannol ac maent yn dangos cyfraddau diwygio lled debyg i amnewidiadau padell-ffemwrol ar bum mlynedd. Mae'r cyfraddau hyn at ei gilydd yn uwch na'r rhai a welwyd gyda mathau eraill o amnewidiadau pen-glin er nad oes modd dweud eto a fydd y tueddiad hwnnw'n parhau wrth ddilyn hyn yn y dyfodol.

Nifer ganolrifol yr amnewidiadau pen-glin cyfan cychwynnol fesul llawfeddyg yw oddeutu 40 y flwyddyn ond, ar gyfer pengliniau uncydrannol, saith

yw'r nifer ganolrifol fesul llawfeddyg. Mae'r mater hwn wedi bod yn destun cyngor ffurfiol gan BASK, y dylai llawfeddygon fod yn cynnal o leiaf ddeg amnewidiad uncambylol y flwyddyn i gael canlyniadau gwell a chyfraddau diwygio is, os ydynt yn gwneud y llawdriniaeth o gwbl.

Mae'r gyfradd ailddiwygio cynnar fymryn yn is mewn pengliniau cadw'r croesffurf a phengliniau sefydlog o'r tu ôl os na chafodd padell y pen-glin ei hailwynebu yn y llawdriniaeth gychwynnol. Tybir bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai diwygiadau i ailwynebu eilaidd oedd y diwygiadau cyntaf yn y pengliniau hynny ac, efallai gallent fod yn arwydd fod y llawdriniaeth ailwynebu eilaidd hynny, felly, yn gysylltiedig â risg is o ailddiwygio wedi hynny, na diwygiadau lle amnewidir cydrannau eraill.

## Newid ffêr

Mae cyfanswm o 6,589 o amnewidiadau ffêr wedi'u dadansoddi ar gyfer yr adroddiad hwn ac, er mai cyfran fechan o'r gweithrediadau clun a phen-glin ydyw, mae'n gasgliad enfawr o amnewidiadau ffêr gyfan, er gwaethaf hynny.

Yn 2019, erys nifer ganolrifol achosion fesul ymgynghorydd (5) a fesul uned (3) yn isel iawn o gymharu â chluniau a phengliniau a chyfran fechan (3.2%) yn unig o llawfeddygon sy'n cynnal mwy nag 20 achos y flwyddyn. Ymddengys yn annhebygol mai niferoedd bychain hyn yr amnewidiadau ffêr a berfformir gan gymaint o llawfeddygon yw'r ffordd orau i sicrhau canlyniadau gwell i gleifion. Mae modd gweld arweiniad BOFAS am y mater hwn yn adran 3.4.4.

Haint oedd yr arwydd yn ôl oddeutu chwarter o llawdriniaethau diwygio, ond nifer fach yn unig o'r rhain awgrymodd bod amheuaeth uchel o haint adeg y llawdriniaeth ddiwygio. At ei gilydd, caiff oddeutu 10% o amnewidiadau ffêr eu diwygio ar naw mlynedd, sy'n gyfradd debyg i'r hyn ar gyfer pengliniau uncambylol. Nifer gymharol fechan o'r

diwygiadau ffêr hyn sydd ar gyfer rhywbeth cymharol fychan megis cyfnewid beryn, felly, os erys y gyfradd ddiwygio gyffredinol wirioneddol yn debyg i'r hyn ar gyfer pengliniau uncambylol, ni fydd hynny'n rheswm i ni fod yn hunanfodlon.

Parhau mae'r broblem o danadrodd ar dorri troed i ffwrdd ac, efallai, ar uno cymal wedi i driniaeth amnewid ffêr fethu. Efallai y bydd angen rhoi sylw ehangach i hyn na thrwy lawfeddygon fferau, gan y gallai rhai o'r gweithredoedd hyn gael eu cynnal gan amrywiaeth eang o lawfeddygon.

Dangosir gwahaniaethau eithaf mawr rhwng cyfraddau diwygio ar gyfer brandiau amnewid ffêr gwahanol ond dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data am hyn. Mae rhai llawfeddygon yn perfformio niferoedd llawer mwy o lawfeddygaethau na'r cyfartaledd, felly, os oes ganddynt gyfraddau diwygio arbennig o dda (neu arbennig o wael), gallai'r llawfeddygon hynny ddylanwadu'n anghymesur ar ganlyniadau'r impiad.

Oherwydd i'r impiad Mobility, yr oedd gwerthu da arno, gael ei dynnu oddi ar y farchnad bum mlynedd yn ôl a'r impiad Infinity gael ei gyflwyno fwy neu lai yr un pryd, bydd yn nifer o flynyddoedd cyn y bydd modd cymharu'n ystyrlon yn y tymor hir gyfraddau diwygio rhai o'r impiadau ffêr mwyaf poblogaidd.

## Newid ysgwydd

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â 45,784 o amnewidiadau ysgwydd gychwynnol a 5,087 o ddiwygio amnewidiadau ysgwydd. Mae niferoedd yr achosion yn parhau i godi o flwyddyn i flwyddyn ond parhau i fod yn heriol mae gwaith dadansoddi'r canlyniadau oherwydd nifer o faterion croes sy'n ymwneud â chymalffurfiad yn benodol. Nid yw gwaith categoriedd o'r impiadau wedi bod yn glir yn y gorffennol am nifer o resymau:

1) Mae'r gosodiadau wedi esblygu'n sydyn ac maent yn gymhleth ac amrywiol;

2) Ni chaiff y dyfeisiau, o reidrwydd, eu defnyddio fel gosodiad cymal cyflawn ym mhob achos;

3) Mae gan rai gweithgynhyrchwyr nifer o frandiau impiadau ysgwydd a gall llawfeddygon gymysgu cydrannau o'r gwahanol frandiau hyn i greu gosodiad ysgwydd; a

4) Bu dryswch yn y gorffennol ynghylch sut yn union y câ rhai achosion eu dosbarthu oherwydd bod rhai disgrifwyr impiadau ar goll yn rhannol.

Eleni, bydd fframwaith dosbarthu diwygiedig newydd yn galluogi diwygiad helaeth o'r categorïau ac ailddosbarthu rhai impiadau fydd yn gwella gwaith dadansoddi'r llawdriniaethau hyn yn y dyfodol.

Mae amnewidiad ysgwydd gyfan pegynedd o chwith yn parhau i gynyddu yn gymesur â hanner cymalffurfiad ysgwyddol ac amnewidiad ysgwydd gyfan confensiynol, felly, o'r holl weithredoedd sydd wedi'u dosbarthu'n llwyr, mae hyn wedi cynyddu o 26.8% i 52.2% o 2012 i 2019. At hyn, mae 13.3% arall nad ydynt wedi'u cadarnhau'n llwyr yn y dosbarthiad newydd ac mae nifer o'r rhain hefyd yn ysgwyddau pegynedd o chwith.

Erys nifer ganolrifol achosion a berfformir gan lawfeddyg bob blwyddyn yn isel o gymharu â chluniau neu bengliniau ac, er gwaethaf hyn, mae nifer y llawfeddygon sy'n perfformio'r gweithredoedd hyn wedi cynyddu'n sylweddol mewn saith mlynedd.

Wrth gymharu cyfraddau diwygio ar gyfer gwahanol fathau o amnewidiadau ysgwydd, gwelir cyfraddau diwygio uwch ar gyfer pob math o hanner cymalffurfiad ysgwyddol o gymharu ag amnewidiadau ysgwydd gyfan bonyn confensiynol neu begynedd o chwith. Anodd iawn yw nodi gradd y cyfryw wahaniaethau oherwydd gwahaniaethau cynhenid yn llwyddiant yr impiadau, gwahaniaethau mewn arwydd a gwahaniaethau posib yn rhwyddineb y diwygio (ac, o'r herwydd, parodrwydd i berfformio llawfeddygaeth ddiwygio). Cynghorir y darlennydd, felly, i ddehongli canlyniadau'r diwygiadau hyn yn ofalus.

Ystyria rhai llawfeddygon ysgwydd bod y gyfradd ddiwygio'n arwydd cymharol wael o lwyddiant y weithred gan fod cyfran sylweddol o gleifion a allai fod â gweithrediad gwael a symptomau parhaus

nad ydynt wedi cael llawfeddygaeth ddiwygio. O'r herwydd, mae canlyniadau eraill yn hanfodol a cheisia'r rhaglen PROMs ddarparu'r cyfryw dystiolaeth ychwanegol. Nid yw cyfanwydd data'r PROMs yn dda ar hyn o bryd, fodd bynnag, ac felly dylid eu dehongli'n ofalus iawn unwaith eto. Gwelir hyn yn Ffigur 3.A5, sy'n dangos bod y gyfradd ddiwygio yn y rhai hynny sy'n arddangos PROMs dilys yn well na'r hyn ar gyfer gweddill y cleifion ysgwyddau.

Er gwaethaf yr anfantais hon, mae carfan PROMs yr ysgwyddau yn un o'r mwyaf yn y byd a diddorol yw gweld yr awgryma'r data cyfyngedig sydd ar gael bod yr hyn y mae'r PROMs yn ei ennill ar ôl hanner cymalffurfiad ysgwyddol yn llai nag ar ôl gweithredoedd pegynedd o chwith ac ysgwydd gyfan gonfensiynol. Gan fod gan hanner cymalffurfiad ysgwyddol gyfraddau diwygio uwch hefyd, awgryma hyn fod y gyfradd ddiwygio'n wirioneddol waeth, yn hytrach nag adlewyrchu trothwy is ar gyfer llawfeddygaeth ddiwygio. Fodd bynnag, mae angen dadansoddi newidion yn fanylach i gael eglurhad o hyn.

Gwelir amrywiaeth sylweddol yn y cyfraddau diwygio ar gyfer brandiau impiadau unigol ond, ar hyn o bryd, nid yw'r rhain ar gael i'r rhan fwyaf o frandiau ysgwydd am fwy nag ychydig flynyddoedd. Er gwaethaf hynny, mae'n bryderus fod rhai ysgwyddau o chwith yn dangos cyfraddau diwygio uwch ar ôl blwyddyn yn unig nag y mae eraill yn eu dangos ar chwe blynedd, hyd yn oed gyda niferoedd cymharol fychain o achosion ar gael i'w dadansoddi.

## Newid penelin

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â 4,373 o amnewidiadau penelin cychwynnol a berfformiwyd ar gyfer dangosyddion trawma a dewisol. O'r rhain roedd dros 2,000 wedi'u himpio yn y tair blynedd diwethaf. Er bod hyn yn gasgliad mawr iawn o amnewidiadau penelin, mae'r gweithredoedd yn amrywiol, fel y mae'r arwyddion, fel bod y gwaith categoreiddio i is-grwpiau yn parhau i adael grwpiau cymharol fychan y mae'n anodd eu dadansoddi o ran canlyniad ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith ailddosbarthu helaeth wedi bod yn fodd i gael llawer mwy o eglurder, er enghraifft, p'run a yw'r weithred wedi cynnwys impiad pen gwaellol a ph'run a yw'r impiad ysgwyddol blaenaf wedi'i ddefnyddio fel hanner cymalffurfiad.

Er bod y gyfradd ddiwygio'n debyg am y tair blynedd gyntaf, mae'r gyfradd hon yn well ar gyfer achosion o drawma aciwt nag ar gyfer achosion dewisol wedi hynny. Mae'r niferoedd ar gyfer achosion trawma yn gymharol fychan ac mae'r arwyddion ar gyfer llawfeddygaeth aciwt rywfaint yn wahanol. O'r herwydd, bydd angen rhagor o eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng canlyniadau aciwt a dewisol pan fo niferoedd uwch ar gael.

Parhau y mae niferoedd bychain iawn yr amnewidiadau penelin a berfformir gan lawfeddygon a chan bob uned ac nid ydynt wedi newid yn sylweddol yn y tair blynedd diwethaf.

Mae hyn yn destun proses trafodaeth gyda Getting It Right First Time (GIRFT) a Chymdeithas Penelinoedd ac Ysgwyddau Prydain (BESS) i benderfynu a oes modd cyflwyno gwaith rhesymoli'r gweithredoedd hyn yn rhanbarthol.

## Cydnabyddiaeth i gloi

Mae'r NJR yn parhau i weithio gyda llawer o randdeiliaid; y pwysicaf, wrth gwrs, yw'r cleifion a wasanaethwn, ac yr hoffem ddiolch iddynt am ganiatáu i'r NJR ddefnyddio eu data.

Ymdrech enfawr gan dîm yw'r NJR. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r isod. Ni allai'r NJR weithredu hebddynt:

Holl aelodau Pwyllgor Llywio'r NJR Aelodau

o is-bwyllgorau'r NJR:

Y Pwyllgor Gwaith Ansawdd Data

Y Bwrdd Golygyddol

Craffu Impiadau

Meddygol

Ymgynghorol

Clinigol Ranbarthol

Cydgysylltwyr Ymchwil

Perfformiad Llawfeddygol

Aelodau o Grŵp Adolygu Mynediad at Ddata

Aelodau o rwydwaith Cleifion yr NJR

Sefydliadau eraill:

Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a

Chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA)

Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)

NHS England

NHS Digital

NHS Improvement

Getting It Right First Time (GIRFT)

Cymdeithas Orthopedig Prydain (BOA) Cymdeithas

Cluniau Prydain (BHS)

Cymdeithas Llawdriniaeth ar y Pen-glin Prydain (BASK)

Cymdeithas Penelinoedd ac Ysgwyddau Prydain (BESS)

Cymdeithas Traed a Fferau Orthopedig Prydain (BOFAS)

Cymdeithas Ymchwil Orthopedeg Ewrop (EORS)

Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP)

Northgate Public Services (UK) Ltd

Prifysgol Bryste

Prifysgol Rhydychen

Grŵp Ymgynghorol Cyfrinachedd

Cymdeithas Diwydiannau Technegol Iechyd Prydain (ABHI)

Ar nodyn personol, hoffem ddiolch yn arbennig i Laurel Powers-Freeling, Cadeirydd yr NJR ac i Elaine Young, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r NJR.

Mae Northgate Public Services, timau Prifysgol Bryste a Phrifysgol Rhydychen wedi gwneud gwaith heb ei ail, yn ôl yr arfer.

Hoffem ddiolch yn bersonol ac yn arbennig i Vicky McCormack a Deirdra Taylor am roi trefn ar yr adroddiad terfynol.



**Yr Athro Mike Reed**

Cadeirydd Bwrdd Golygyddol yr  
NJR Editorial Board



**Mr Tim Wilton**

Cyfarwyddwr  
Meddygol yr NJR

a

Yn y rhan hon o'r adroddiad blynyddol rhoddir dangosyddion ansawdd cofnodi data a pherfformiad ar gyfer Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol (nifer ohonynt yn cynnwys mwy nag un ysbyty) a darparwyr (preifat) annibynnol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac Ynys Manaw ar gyfer blwyddyn galendr 2019. Darperir dadansoddiad o ganlyniadau hefyd wedi llawfeddygaeth newid clun a phen-glin am y cyfnod 2010 i 2020.

Mae'r adran hon hefyd bellach yn darparu data ar gyfer impiadau ffiniol er 2003 a rhagor o wybodaeth am rybuddion a'r dyddiad defnyddio olaf.

**Mae modd gweld y dadansoddiad llawn ar gyfer unedau yn y ddogfen sydd ar gael yn yr adran lawrlwythiadau yn [reports.njrcentre.org.uk](https://reports.njrcentre.org.uk)**

## 4.1 Perfformiad impiad

Mae'r Pwyllgor Craffu Impiadau'n adrodd ar impiadau ffiniol Lefel 1 i'r MHRA. Ers ffurfio'r pwyllgor yn 2009 adroddwyd ar saith bôn clun, deg cydran asetabwlaidd (cwpan) clun a 34 cyfuniad bôn/cwpan clun. Rhoddwyd gwybod am gyfanswm o 12 brand pen-glin. Eleni, caiff impiadau pen-glin gydag ailwynebu padell y pen-glin a hebddi eu cynnwys wrth ddadansoddi impiad ffiniol

Ystyrir bod Impiad yn ffiniol Lefel 1 pan fo'i Gyfradd Digwyddiadau Amser Prosthesis (PTIR) yn fwy na dwywaith PTIR y grŵp, felly'n caniatáu ar gyfer cyfyngau hyder. Dangosir y rhain fel nifer y diwygiadau fesul 100 blwyddyn prosthesis. Er Mawrth 2015, rydym wedi dechrau nodi'r impiadau sy'n perfformio orau, byddai gan y rhain PTIR sy'n llai na hanner PTIR eu grŵp, felly'n caniatáu ar gyfer cyfyngau hyder. Hyd heddiw nid oes yr un impiad wedi cyrraedd y lefel honno.

Nid yw cyfadrannau a gosodiadau yr adroddwyd yn flaenorol arnynt i'r MHRA, ond nad ydynt mwyach yn Lefel 1, wedi'u rhestru.

### Perfformiad impiad clun

**Tabl 4.1** Bonion ffiniol Lefel 1yr adroddir i'r MHRA.

Enw'r bonyn	Niferoedd a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd diwethaf
ASR	2,924	2.71	2010	2010
Corin Proxima*	105	2.23	2011	2009
S-ROM Cementless stem*	3,256	1.30	2013	Yn parhau i gael ei ddefnyddio
Adept Cementless stem*	227	1.93	2017	2010
Freeman cementless	330	1.33	Hydref 2019	2010
DePuy Proxima	342	1.37	Hydref 2019	2014
Twinsys cementless	1,065	1.18	Hydref 2019	2018

\*Fe'i cynhwysir yma'n bennaf oherwydd cyfuniadau metel-ar-fetel.

**Tabl 4.2** Cydrannau asetabwlaidd ffiniol Lefel 1 a adroddir i MHRA.

Enw'r gwpan	Nifer a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd ddiwethaf
ASR*	6,255	3.84	2010	2010
Ultima MoM cup*	193	1.76	2010	2006
R3 with metal liner**	150	3.02	2011	2011
M2A38*	1,484	1.74	2014	2011
Delta One TT	344	1.42	2015	Parhau i gael ei defnyddio
Trabecular Metal Revision Shell	399	1.42	2017	Parhau i gael ei defnyddio
seleXys TH+	184	1.84	2018	2011
Pinnacle with metal liner**	15,558	1.36	2018	2013
MIHR cup*	256	1.83	Mehefin 2019	2011

\*Fe'i cynhwysir yma'n bennaf oherwydd cyfuniadau metel-ar-fetel.

\*\*Metel-ar-fetel

© Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau

**Tabl 4.3** Cyfuniadau bonyn / cwpan ffiniol Lefel 1.

Cyfuniad	Nifer a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd ddiwethaf
ASR Resurfacing Head / ASR Resurfacing Cup*	2,914	2.71	2010	2010
Metafix Stem / Cormet 2000 Resurfacing Cup*	173	2.68	2010	2011
CPT / Adept Resurfacing Cup*	268	3.11	2011	2010
Corail / ASR Resurfacing Cup*	2,729	5.23	2011	2010
CPT / BHR Resurfacing Cup*	116	2.40	2011	2010
Accolade / Mitch TRH Cup*	274	2.56	2011	2011
Summit Cementless Stem / ASR Resurfacing Cup*	128	4.61	2012	2009
CPT / Durom Resurfacing Cup*	184	2.30	2012	2009
S-Rom Cementless Stem / ASR Resurfacing Cup*	147	3.83	2012	2010
CPCS / BHR Resurfacing Cup*	255	1.52	2012	2010
Anthology / BHR Resurfacing Cup*	510	2.85	2012	2011
SL-Plus Cementless Stem / Cormet 2000 Resurfacing Cup*	627	2.18	2013	2010
Profemur L Modular / Conserve Plus Resurfacing Cup*	159	2.48	2013	2010
Bimetric Cementless Stem / M2A 38*	1,302	1.78	2014	2011
Corin Proxima / Cormet 2000 Resurfacing Cup*	102	2.32	2015	2009
Synergy Cementless Stem / BHR Resurfacing Cup*	1,584	2.10	2016	2011
Adept Cementless Stem / Adept Resurfacing Cup*	200	2.05	2017	2010
Exeter V40 / Trabecular Metal Revision Shell	172	1.47	2017	2017
CLS Cementless Stem / Adept Resurfacing Cup*	218	2.57	2017	2011
Spectron / Opera	216	1.07	2018	2014
Exeter V40 / Mitch*	121	1.33	2018	2010
Twinsys Cementless Stem / Adept Resurfacing Cup*	130	1.92	2018	2010
CLS Spotorno Cementless Stem / Durom Resurfacing Cup*	929	2.57	2018	2018

Metel-ar-fetel

© Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau

Cyfuniad	Nifer a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd ddiwethaf
S-Rom Cementless Stem / Pinnacle*	2,044	1.33	2018	Yn parhau i gael ei ddefnyddio
S-Rom Cementless Stem / Ultima Mom Cup	105	1.52	Hydref 2019	2005
Taperloc Cementless Stem / M2A 38*	138	1.49	Hydref 2019	2010
Versys FMT Cementless Stem / Durom Resurfacing Cup*	182	1.47	Hydref 2019	2010
Restoration Cementless Stem / Titanium	109	3.51	Mehefin 2020	Yn parhau i gael ei ddefnyddio
Furlong HAC Stem / MIHR Cup	134	1.42	Mehefin 2020	2010

Metel-ar-fetel

## Impiadau clun sy'n perfformio orau

Nid oes impiadau na chyfuniadau clun sy'n perfformio'n ystadegol lai na hanner eu PTIR disgwylidig.

## Perfformiad Impiad pen-glin

**Tabl 4.4** Impiadau ffiniol lefel 1 a adroddir i MHRA.

Brand pen-glin	Nifer a impiwyd	Y PTIR diweddaraf	Hysbyswyd fel ffiniol	Impiwyd diwethaf
JRI Bicondylar Knee	247	1.69	2009	2008
Tack	231	1.65	2009	2008
St Leger	104	1.69	2011	2005
Journey Deuce	151	2.64	2014	2013
SLK Evo	103	1.69	2016	2013
ACS	198	1.72	2017	2017
Journey Oxinium	825	1.03	2017	2014
Smiles hinged knee*	710	1.59	2018	Yn parhau i gael ei ddefnyddio
Endo-Model Modular Rotating Hinge*	230	2.22	Mehefin 2019	Yn parhau i gael ei ddefnyddio
Journey II BCS Oxinium without primary patella	691	1.72	Mehefin 2020	Yn parhau i gael ei ddefnyddio
E-Motion Bicondylar Knee with primary patella	329	1.44	Mehefin 2020	Yn parhau i gael ei ddefnyddio

© Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau 2020

\*Caiff prothesisau pen-glin colfachog eu defnyddio'n amlach mewn gweithredoedd cymhleth cychwynol, o'u cymharu â chyfanswm yr holl amnewidiadau pen-glin. Noder: Dechreuwyd dadansoddi impiadau ffiniol y pen-glin gyda phadell y pen-glin wedi'i ailwynebu chydaf'r badell heb ei hailwynebu yn 2020.

## Impiadau pen-glin sy'n perfformio orau

Nid oes impiadau pen-glin sy'n perfformio'n ystadegol lai na hanner eu PTIR disgwylidig.

## 4.2 Gweithgarwch clinigol

At ei gilydd yn 2019, roedd 145 o Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol (sy'n cynnwys 251 o ysbytai ar wahân) a 178 o ysbytai annibynnol yn agored ac yn gymwys i roi gwybod i'r NJR am weithredoedd cleifion. Cyflwynodd yr holl unedau ac eithrio dwy uned drawma'r GIG ac un uned annibynnol oedd newydd agor ddata yn 2019. Gan Ymddiriedolaeth GIG yn unig y mae'r ganran o'r holl amnewidiadau cymal clun a phen-glin a gofnodwyd yn yr NJR yn erbyn y rhai hynny a gofnodwyd yn ystadegau Cyfnodau mewn Ysbyty (HES). Nid oes gan ddarparwyr preifat ddata ar hwn ar hyn o bryd ac mae ffigurau hefyd yn eithrio unedau yng Ngogledd Iwerddon gan nad oes data cydymffurfiad ar gael.

Adeg cyhoeddi nid oedd wedi bod yn bosibl cynhyrchu ffigurau cydymffurfio ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 oherwydd nad oedd data ar gael gan wasanaeth Cyfnodau mewn Ysbyty.

O'r ysbytai hynny sy'n cyflwyno data, roedd cyfran y cleifion a roes eu cydsyniad i gofnodi eu manylion yn yr NJR fel a ganlyn:

### Ysbytai GIG

- Cyflawnodd 45% o ysbytai GIG gyfradd gydsynio o fwy na 95%
- Cyflawnodd 34% gyfradd gydsynio o 80% i 95%
- Cofnododd 21% gyfradd gydsynio o lai na 80%

### Ysbytai annibynnol

- Cyflawnodd 71% o ysbytai annibynnol gyfradd gydsynio o fwy na 95%
- Cyflawnodd 25% gyfradd gydsynio o 80% i 95%
- Cofnododd 4% gyfradd gydsynio o lai na 80%

Bu gostyngiad yn y cydsyniad a gofnodir ar gyfer yr holl unedau sy'n cyflwyno wrth gymharu â'r flwyddyn

flaenorol, gyda'r rhai hynny sy'n cyflawni cyfradd uwch na 95% yn syrthio o 55% i 50%. Mae cyfran yr holl unedau sy'n cyflawni cyfradd gydsynio uwch na 80% yn parhau'n gyson gan syrthio 1% yn unig i 84% yn 2018.

Yn yr un modd, rhestrir y gyfran o'r cofnodion lle mae data sylweddol fel bod modd i'r claf gael ei gysylltu â rhif GIG (cysylltedd):

### Ysbytai GIG

- Cyflawnodd 82% gyfran o gleifion â rhif GIG cysylltiadwy o fwy na 95%
- Cyflawnodd 16% gyfran o 80% i 95%
- Cofnododd 2% gyfran o lai na 80%

### Ysbytai annibynnol

- Cyflawnodd 76% gyfran o gleifion â rhif GIG cysylltiadwy o fwy na 95%
- Cyflawnodd 18% gyfran o 80% i 95%
- Cofnododd 6% gyfran o lai na 80%

Unwaith eto, bu gostyngiad mewn cysylltedd o 2018, gyda chanran yr unedau sy'n cyflwyno'n cyflawni dros 95% yn 2019, yn syrthio o 81% i 80%. Nid yw'r ganran sy'n cyflawni cyfradd gysylltedd o fwy na 80% wedi newid ac mae'n parhau ar 96% o gymharu â 2018.

Noder: Efallai bod disgwyl i ysbytai annibynnol fod â chyfraddau cysylltedd is nag ysbytai GIG, gan y gallai cyfran o'u cleifion ddod o dramor a bod heb rif GIG.

## 4.3 Unedau ffiniol ar gyfer cyfraddau marwolaeth a diwygio 90 diwrnod ar gyfer y cyfnod 2010 i 2020

Cymharwyd niferoedd y diwygiadau amnewidiadau clun a phen-glin a arsylwyd ar gyfer pob ysbyty â'r niferoedd a ddisgwyliwyd o gofio mathau achosion yr uned o ran oed, rhyw a rheswm am lawfeddygaeth gychwynnol. Mae ysbytai â chyfradd ddiwygio llawer uwch na'r disgwyl ar gyfer newid clun a phen-glin wedi'u nodi. Roedd gan yr ysbytai hyn gyfradd ddiwygio oedd uwchben y cyfyngiadau rheoli uchaf o 99.8% (mae'r cyfyngiadau hyn oddeutu +/-3 gwyrriad safonol). Byddem yn disgwyl i 0.2% (un mewn 500) fod y tu allan i'r cyfyngiadau rheoli trwy siawns gydag oddeutu hanner o'r rhain (un mewn 1,000) uwchben y cyfyngiad uchaf.

Wrth edrych dros ddeng mlynedd diwethaf y gofrestrfa, adroddodd cyfanswm o 40 o ysbytai gyfraddau diwygio uwch na'r disgwyl ar gyfer amnewidiad pen-glin ac roedd gan 26 o ysbytai gyfraddau diwygio uwch na'r disgwyl ar gyfer llawfeddygaeth ar y glun. Fodd bynnag, dangosodd diwygiadau a gymerwyd o bum mlynedd olaf y gofrestrfa'n unig mai 15 ysbyty'n unig adroddodd ar gyfraddau uwch na'r disgwyl ar gyfer pengliniau a deg ar gyfer cluniau.

Cyfrifwyd marwolaeth 90 diwrnod ar gyfer amnewidiad clun a phen-glin gan ddefnyddio data'r pum mlynedd diwethaf ar gyfer yr holl ysbytai trwy blotio cymarebau marwolaeth safonedig ar gyfer pob ysbyty yn erbyn nifer disgwyliedig y marwolaethau. Nid oedd gan yr un ysbyty gyfradd marwolaeth uwch na'r disgwyl ar gyfer newid clun na phen-glin.

Noder: Mae addasu mathau achosion ar gyfer marwolaeth yn cynnwys oed, rhyw a graddfa ASA. Mae achosion trawma wedi'u heithrio o ddadansoddiadau marwolaeth yng nghyswllt clun a phen-glin, ynghyd â chluniau a impiwyd ar gyfer hanner cymalfurfiad a fethodd neu gancr metastatig (yr olaf er mis Tachwedd 2014 yn unig

pan ddechreuwyd cofnodi'r rheswm hwn). At hyn, lle cafodd cymalau'r ochr chwith a'r ochr dde eu himpio'r un diwrnod, un ochr yn unig a gynhwyswyd yn y dadansoddiad.

Noder: Mae unrhyw uned a nodir fel uned ffiniol bosib yma wedi'i hysbysu. Rhoddir Adroddiad Clinigol Blynyddol i'r holl unedau ac, yn ogystal, mae ganddynt fynediad at System Adborth Rheoli'r NJR.

### Nodyn pwysig am yr ysbytai ffiniol a restrir

Mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, adroddodd yr NJR ar ysbytai ffiniol yn seiliedig ar yr holl achosion a gyflwynwyd i'r NJR er 1 Ebrill 2003. Er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn arferion ysbytai a'r defnydd o gydrannau, mae'r NJR bellach yn adrodd ar ysbytai ffiniol yn seiliedig ar ddata'r deng mlynedd diwethaf (15 Chwefror 2010 i 14 Chwefror 2020) a phum mlynedd o ddata (15 Chwefror 2015 i 14 Chwefror 2020), y dyddiad olaf yw'r dyddiad pan dorwyd y set ddata). Mae'r toriadau hyn o ddata yn eithrio o'r dadansoddiad y rhan fwyaf o impiadau ffiniol a dynnwyd yn ôl, ac amnewidiadau clun metel-ar-fetel ac, felly, maent yn cynrychioli arfer cyfoes yn well.

**Tabl 4.5** Ffiniol ar gyfer cyfraddau marwolaeth yng nghyswllt clun er 2015<sup>2</sup>.

#### Enw'r ysbyty

Ni nodwyd yr un

**Tabl 4.6** Ffiniol ar gyfer cyfraddau marwolaeth yng nghyswllt pen-glin er 2015<sup>2</sup>.

#### Enw'r ysbyty

Ni nodwyd yr un

**Tabl 4.7** Ffiniol ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2010<sup>1</sup>.**Enw'r ysbyty**

Ashtead Hospital (Surrey)  
 Basingstoke and North Hampshire Hospital  
 BMI Clementine Churchill Hospital (Middlesex)  
 BMI The Meriden Hospital (West Midlands)  
 Chesterfield Royal Hospital  
 Colchester General Hospital  
 Fitzwilliam Hospital (Cambridgeshire)  
 Hexham General Hospital  
 Homerton University Hospital  
 Milton Keynes Hospital  
 North Downs Hospital (Surrey)  
 North Tyneside General Hospital  
 Nuffield Orthopaedic Centre  
 Salisbury District Hospital  
 South Tyneside District Hospital  
 Southampton General Hospital  
 Spire Liverpool Hospital (Merseyside)  
 St Richard's Hospital  
 Sussex Orthopaedic NHS Treatment Centre  
 The Holly Private Hospital (Essex)  
 University Hospital (Coventry)  
 Wansbeck Hospital  
 Watford General Hospital  
 Weston General Hospital  
 Wrexham Maelor Hospital

**Tabl 4.9** Ffiniol ar gyfer cyfraddau diwygio Pen-glin, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2010<sup>1</sup>.**Enw'r ysbyty**

Abergele Hospital  
 Ashford Hospital  
 BMI Bishops Wood Hospital (Middlesex)  
 BMI Goring Hall Hospital (West Sussex)  
 BMI The London Independent Hospital (Greater London)  
 BMI The Meriden Hospital (West Midlands)  
 Broadgreen Hospital  
 Charing Cross Hospital  
 County Hospital Louth  
 Ysbyty Diana Tywysoges Cymru  
 Ealing Hospital  
 Guy's Hospital  
 Heatherwood Hospital  
 Hillingdon Hospital  
 Hinchingsbrooke Hospital  
 Homerton University Hospital  
 Horton NHS Treatment Centre (Oxfordshire)  
 King Edward VII Hospital Sister Agnes (Greater London)  
 Mount Vernon Treatment Centre  
 Ysbyty Nevill Hall  
 Nottingham City Hospital  
 Nuffield Health Chichester Hospital (West Sussex)  
 Orthopaedics and Spine Specialist Hospital (Cambridgeshire)  
 Queen Elizabeth The Queen Mother Hospital  
 Riverside Treatment Centre  
 South Tyneside District Hospital  
 Southampton General Hospital  
 Southmead Hospital  
 Spire Hull and East Riding Hospital (East Yorkshire)  
 Spire Southampton Hospital (Hampshire)  
 Springfield Hospital (Essex)  
 St Albans City Hospital  
 St Mary's Hospital  
 St Richard's Hospital  
 Sussex Orthopaedic NHS Treatment Centre  
 The Royal National Orthopaedic Hospital (Stanmore)  
 University College Hospital  
 University Hospital Aintree  
 Ysbyty'r Brifysgol Llandochoau Fach  
 York Hospital

**Tabl 4.8** Ffiniol ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2015<sup>2</sup>.**Enw'r ysbyty**

BMI The Meriden Hospital (West Midlands)  
 Fitzwilliam Hospital (Cambridgeshire)  
 Hexham General Hospital  
 Milton Keynes Hospital  
 North Tyneside General Hospital  
 Nuffield Health Cheltenham Hospital (Gloucestershire)  
 Salisbury District Hospital  
 Southampton General Hospital  
 Wansbeck Hospital  
 Weston General Hospital

**Tabl 4.10** Ffyniol ar gyfer cyfraddau diwygio Pen-glin, yr holl weithredoedd cychwynnol cysylltiedig er 2015<sup>2</sup>

**Enw'r ysbyty**

Barlborough NHS Treatment Centre (Derbyshire)

BMI Bath Clinic (Avon)

BMI The Meriden Hospital (West Midlands)

Guy's Hospital

Heatherwood Hospital

Hillingdon Hospital

King Edward VII Hospital Sister Agnes (Greater London)

Nuffield Orthopaedic Centre

Ormskirk and District General Hospital

Southmead Hospital

Spire Southampton Hospital (Hampshire)

Springfield Hospital (Essex)

Sussex Orthopaedic NHS Treatment Centre

The Lister Hospital (London)

The North East NHS Surgery Centre

© Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau 2020

Noder: Ystod dyddiad 1 15 Chwefror 2010 i 14 Chwefror 2020.  
Ystod dyddiad 2 15 Chwefror 2015 i 14 Chwefror 2020.

## 4.4 Perfformiad gwell na'r disgwyl

Eleni eto rydym wedi rhestru ysbytai lle mae cyfraddau diwygio'n ystadegol well na'r disgwyl. Yn y rhestri hyn gwelir unedau sydd dan y cyfyngiad rheoli 99.8% ac a gydymffurfiodd fwy na 90% yn archwiliad ansawdd data 2015/16 yr NJR. Caiff unedau sydd â chydymffurfiaeth ansawdd data is eu heithrio'n awtomatig o'r rhestri hyn.

**Tabl 4.11** Gwell na'r disgwyl ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynol cysylltiedig er 2010<sup>1</sup>.

### Enw'r ysbyty

Calderdale Royal Hospital  
Ipswich Hospital  
Luton and Dunstable Hospital  
Musgrave Park Hospital  
Nuffield Health Derby Hospital (Derbyshire)  
Queens Medical Centre Nottingham University Hospital  
Royal Derby Hospital  
Royal Devon and Exeter Hospital (Wonford)  
Royal Surrey County Hospital

**Tabl 4.12** Gwell na'r disgwyl ar gyfer cyfraddau diwygio Clun, yr holl weithredoedd cychwynol cysylltiedig er 2015<sup>2</sup>.

### Enw'r ysbyty

Calderdale Royal Hospital  
Ipswich Hospital  
Royal Surrey County Hospital

**Tabl 4.13** Gwell na'r disgwyl ar gyfer cyfraddau diwygio Pen-glin, yr holl weithredoedd cychwynol cysylltiedig er 2010<sup>1</sup>

### Enw'r ysbyty

Bishop Auckland Hospital  
BMI Alexandra Hospital Cheadle (Cheshire)  
Burnley General Hospital  
Calderdale Royal Hospital  
Colchester General Hospital  
Hexham General Hospital  
Ipswich Hospital  
Musgrave Park Hospital  
Norfolk and Norwich Hospital  
North Tyneside General Hospital  
Nottingham Woodthorpe Hospital (Nottinghamshire)  
Nuffield Health Derby Hospital (Derbyshire)  
Nuffield Health Ipswich Hospital (Suffolk)  
Princess Alexandra Hospital  
Royal Derby Hospital  
Spire Norwich Hospital (Norfolk)  
Spire Parkway Hospital (West Midlands)  
Stepping Hill Hospital  
Worcestershire Royal Hospital

**Tabl 4.14** Gwell na'r disgwyl ar gyfer cyfraddau diwygio Pen-glin, yr holl weithredoedd cychwynol cysylltiedig er 2015<sup>2</sup>.

### Enw'r ysbyty

Ipswich Hospital  
Musgrave Park Hospital  
Spire Norwich Hospital (Norfolk)  
The Cheshire and Merseyside Treatment Centre  
The Horder Centre (East Sussex)

Noder: Ystod dyddiad 1 15 Chwefror 2010 i 14 Chwefror 2020.  
Ystod dyddiad 2 15 Chwefror 2015 i 14 Chwefror 2020.

## Casglu Data

Mae Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau (NJR) yn cynhyrchu'r adroddiad hwn gan ddefnyddio data a gesglir, a grynhoir ac a ddarperir gan drydydd partïon. Oherwydd hyn, nid yw'r NJR yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ba mor fanwl gywir, cyfredol, dibynadwy a chywir yw unrhyw ddata a ddefnyddir neu y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, nac am ba mor fanwl gywir, cyfredol, dibynadwy a chywir yw'r cysylltiadau neu gyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill ac mae'n ymwrthod â phob gwarant mewn perthynas â data, cysylltiadau a chyfeiriadau o'r fath, i'r eithaf a ganiateir gan ddeddfwriaeth.

Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar yr NJR (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i rwymedigaeth oherwydd esgeulustod) am unrhyw golled, difrod, cost na thraul sy'n digwydd neu'n codi oherwydd bod unrhyw berson yn defnyddio neu'n dibynnu ar y data o fewn yr adroddiad hwn a boed yn cael ei achosi oherwydd unrhyw wall, esgeulustod neu gamliwiad yn yr adroddiad neu fel arall. Ni ddylai'r adroddiad hwn gael ei ystyried yn gyngor. Bydd trydydd partïon sy'n defnyddio neu'n dibynnu ar y data yn yr adroddiad hwn yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain a byddant yn gyfrifol am wneud eu hasesiad eu hunain a dylent wirio pob cynrychiolaeth, datganiad a gwybodaeth berthnasol gyda'u cynghorwyr proffesiynol eu hunain.

## Llywodraethiant gwybodaeth a chyfrinachedd cleifion

Mae'r NJR yn sicrhau y prosesir data'r holl gleifion ac yr ymdrinnir â nhw yn unol â safonau rhyngwladol a'r DU ac o fewn deddfwriaeth y DU ac Ewropeaidd; mae gwarchod a defnyddio rheolau caeth wrth ddefnyddio data cleifion o'r pwys mwyaf. Cesglir data'r NJR trwy raglen cofnodi data ar y we a'u storio a'u prosesu yng nghanolfan ddata Northgate Public Services (NPS). Yn ogystal â chael eu hachredu i ISO 27001 ac ISO 9001,

mae NPS hefyd yn cydymffurfio â Phecyn Cymorth Diogelu a Gwarchod Data'r GIG.

At ddibenion ymchwil a dadansoddi, cysylltir data'r NJR yn flynyddol â data o systemau gofal iechyd eraill gan ddefnyddio dynodwyr cleifion, rhif GIG claf yn bennaf. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Ystadegau ar Gyfnodau mewn Ysbytai (HES), data o raglen Mesurau ar Ganlyniadau a Adroddir gan Gleifion NHS England (PROMs), a data Cofrestru Sifil (i gyd wedi'u darparu gan NHS Digital) a Data-bas Cymru ar Gyfnodau Cleifion (PEDW) (a ddarperir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru). Pwrpas cysylltu â'r setiau data hyn yw ymestyn ac ehangu math y dadansoddiadau y gall yr NJR ymgymryd â nhw heb orfod casglu data ychwanegol. Mae'r cysylltedd hwn wedi'i gymeradwyo gan yr Asiantaeth Iechyd dan Adran 251 Deddf GIG 2006 ar sail gwella diogelwch cleifion a chanlyniadau cleifion: rhydd y gefnogaeth y sail gyfreithiol dros ymgymryd â chysylltedd data'r NJR â'r setiau data iechyd a restrir uchod.

Unwaith y cysylltir y setiau data, tynnir data y gellir adnabod cleifion ohonynt o'r set data newydd fel nad oes modd adnabod unrhyw glaf. Yna bydd y data hyn ar gael i dîm ystadegau a dadansoddi'r NJR ym Mhrifysgol Bryste lle byddir yn prosesu'r data yn unol â Phecyn Cymorth Diogelu a Gwarchod Data'r GIG. Cyfarwyddir y gwaith a wneir gan Brifysgol Bryste gan Bwyllgor Llywio'r NJR a Bwrdd Golygyddol yr NJR a chyhoeddir canlyniadau'r dadansoddiadau yn Adroddiad Blynyddol yr NJR ac mewn cyfnodolion proffesiynol. Mae'r holl ddata a gyhoeddir wedi'i seilio ar ddata diennw. Golyga hyn na ellid adnabod yr un claf.

## Cyswllt:

Canolfan Wasanaethu'r NJR  
yn Northgate Public Services (UK) Ltd  
Peoplebuilding 2  
Peoplebuilding Estate  
Maylands Avenue  
Hemel Hempstead  
Hertfordshire  
HP2 4NW

Ffôn: 0845 345 9991  
Ffacs: 0845 345 9992

E-bost: [enquiries@njrcentre.org.uk](mailto:enquiries@njrcentre.org.uk)  
Gwefan: [www.njrcentre.org.uk](http://www.njrcentre.org.uk)



National Joint Registry

[www.njrcentre.org.uk](http://www.njrcentre.org.uk)

Working for patients, driving forward quality

[www.njrcentre.org.uk](http://www.njrcentre.org.uk)  
[reports.njrcentre.org.uk](http://reports.njrcentre.org.uk)



CLUNIAU



PENGLINIAU



FFERAU



PENELINOEDD



YSGWYDDAU

Gwnaed pob ymdrech adeg cyhoeddi i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn gywir. Os bydd yn ofynnol gwneud newidiadau neu gywiriadau ar ôl cyhoeddi, fe'u cyhoeddir ar wefan yr NJR yn [www.njrcentre.org.uk](http://www.njrcentre.org.uk) ac ar wefan bwrpasol Adroddiadau'r NJR yn [reports.njrcentre.org.uk](http://reports.njrcentre.org.uk).

Yn [reports.njrcentre.org.uk](http://reports.njrcentre.org.uk), mae'r ddogfen hon ar gael i'w lawrlwytho ar ffurf PDF ynghyd â data ychwanegol ar gynnydd yr NJR a datblygiadau, gweithgarwch clinigol a gweithgarwch a chanlyniadau impiadau ac ar lefel unedau.



[/nationaljointregistry](https://www.facebook.com/nationaljointregistry)



[@jointregistry](https://twitter.com/jointregistry)